# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk* | Bethesda |
| **Caroline Jones** | Gwynedd |
| 01248 602131 | LL57 3AE |
| CyngorLlanllechid@ogwen.org | |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn rhithiol ar Zoom ar nos Iau y 10fed o Dachwedd 2022 am 1900 yh**

**1. PRESENNOL:**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Megan Tomos

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Dafydd K Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams
Y Cynghorydd Jên Morris

Abbie Edwards Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Y Cyng. Wyn Bowen Harries.**

**2. Trafodaeth gyda Abbie Edwards Partneriaeth Tirwedd y Carneddau**

Cafwyd diweddariad ar nifer o brosiectau, gan gynnwys mapio’r Himalayan Balsam, torri Eithin, trac Moelwnion, ac Merlod y Carneddau.

**3. Ymddiheuriadau**

Dim

**4. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 13fed o Hydref 2022.

**5. Materion yn codi o’r cofnodion**

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________

**Twll yn y ffordd ger Wern Bach** –Y Cyng. Dafydd Meurig wedi ailgysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad.
**Cysylltiad Fibreoptig** –Gwaith cysylltiad Fibreoptig wedi ei gwblhau ar y mwyafrif o dai. Y Cyng Megan Tomos am wneud ymholiadau personol yn hytrach na'r Cyngor Cymuned.
**Arwyddion Maes y Groes –** Dim arwyddion wedi ei osod hyd yn hyn. Ymateb gan Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd i drefnu ymweliad safle gyda Cyng. Evan Jones. Y Clerc i gysylltu gyda Y Cyng. Dafydd Meurig.
**Datblygiadau Bronnydd Isaf** – Ymateb wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd yn egluro'r sefyllfa hyd yn hyn. Adroddwyd fod merch ifanc yn feddianu y siale, ond oherwydd profedigaeth teulu, penderfynwyd nôl yn mis Gorffennaf i ohirio gohebu ymhellach a hi am ychydig fisoedd.
My fyddent yn gohebu gyda'r Cyngor Cymuned pan fyddai rhywbeth i'w adrodd.
**Peryglon croesi ffordd wrth Cae Rhosydd** Y Clerc i ailgysylltu gyda Cyngor Gwynedd yn benodol am y croesi.
**Pant Bowls –** Ebost wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd ynghynt. Maent yn trefnu cyfarfod gyda contractwr (G-Mec) i ddangos y gwaith iddynt. Gyda bwriad o gyflawni'r gwaith cyn tymor gwlyb y gaeaf. Y Cyng. Dafydd Meurig wedi ailgysylltu gyda Cyngor Gwynedd **-** Dim diweddariad.
**Bryn Derwas –** Y Clerc wedi anfon sylwadau'r Cyng. Evan Jones ymlaen i Gyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd am wneud asesiad o'r lleoliad a chadarnhau os byddent yn darparu bin newydd yma. Dim diweddariad
**Prosiect Partneriaeth y Carneddau** –Ar yr agenda..
**Llwyn Bedw –** Adroddwyd fod rhifau 12 a 13 Llwyn Bedw o fewn ffin plwyf Bethesda ac felly yn talu treth y plwyf hwn, ond fod gweddill y stad ym mhlwyf Llanllechid. Y Clerc wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd. Er mwyn newid ffin fysa rhaid mynd drwy broses newid ffiniau cymunedol, mae hyn yn rhywbeth byddwn yn edrych ar draws y sir blwyddyn nesaf. Y Clerc i gysylltu gyda Y Cyng Dafydd Meurig.
**Ysgol Llanllechid** Ebost wedi ei yrru at Bennaeth Cyngor Sir Gwynedd, Pennaeth Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Cymuned Bethesda, Cynghorwyr Paul Rowlinson a Dafydd Meurig**.** Derbynwyd ymateb gan Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg, Wedi derbyn ymateb gan Y Cyng Dafydd Meurig, gweler y Gohebiaeth.
**Cyfraddau treth Llanllechid** - Derbynwyd ymateb gan Cyngor Gwynedd. Y Cyng Geraint Hughes wedi drafftio ymateb, Y Clerc wedi ei yrru i Gyngor Gwynedd. Dim diweddariad.
**Llwybr wrth ochr Eglwys Llanllechid** Llwybr wedi ei thorri
**Tyllau yn y ffordd ger Fferm Ty'n Hendre** Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad.
**Safle bws Talybont -** Ymholiad gan Y Cyng. Wyn Bowen Harries am y phosibilrwydd o drefnu artisiaeth ysgolion lleol yn y safle. Y Cyng. Wyn Bowen Harries i wneud ymholiadau gyda Phartneriaeth Ogwen.
**Llwyn Bedw -** Derbynwyd gohebiaeth gan drigolion Llwyn Bedw yn codi pryderon am y datblygiadau. Penderfynwyd yng ngyfarfod Mis Medi i ysgrifennu llythyr i ddiolch iddynt am y gwybodaeth ac am gadw'r cyngor yn wybodus, unwaith mae'r cyfarfod wedi cael ei gynnal. Dim diweddariad.
**Difrod i safle bws Talybont** Julian Johnson wedi cael gwared ar y rhannau niweidiol.
**Adroddiad Cyngor Sir** – Ar yr agenda
**Cocos Traeth Lafan** – adroddwyd fod dim cyfleusterau toiled i'r helwyr. Ymateb gan Swyddog Morwrol, er yn cydnabod pryderon y Cyngor Cymuend ni fyddwn yn rhagweld

byddai Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa i osod 'Toiledau Dros Dro' ar y safle. Tybed efallai a fyddai hwn yn brosiect i'r Cyngor Cymuned i'w ystyried? Nid oes gan yr Uned Forwrol unrhyw asedau ar y safle hon felly ni fyddai Morwrol yn gallu ymrwymo i gost lleoli toiledau dros dro ar ys afle ar gyfer casglwyr cocos. Y Cyng Dafydd K Jones ac Y Cyng Robin Williams am wneud ymholiadau.

**Chwarel y Bryn** – adroddwyd fod dwr yn llifo i lawr y ffordd. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

## 6. Adroddiad Cyngor Sir

Derbynwyd adroddiad gan Y Cyng, Dafydd Meurig yn cynnwys nifer o faterion yn codi, gweler pwynt 5 ar yr agenda.

## 7. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol

| | | |
|---|---|---|
| Wicksteed | Trwsio Hurricane swing Talybont | £242.30 |
| Cyngor Gwynedd | Costau Etholiad | £214 |
| Julian Johnson | Torri Gwair Hydref a trwsio Safle Bws | £85 |
| J. Temple Morris & Son | Gwaith bugail mynydd Llanllechid 2022 | £3000 |

## 8. Y Mynydd

Dim yw adrodd.

## 9. Cae Chwarae Talybont

**9.1** Y Cyng. Alun Thomas yn chwilio am brisiau 'container' i gadw offer. Dim diweddariad.
**9.2** Y Cyng. Alun Thomas wedi cael pris am beiriant torri gwair - oddeutu £3000. Dim diweddariad.
**9.3** Cyfarfodwyd Y Cyng Evan Jones, Y Cyng Wyn Bowen Harries ac Dafydd Einion Jones ar ddydd Mawrth 18fed o Hydref. Trafodwyd grantiau sydd ar gael i wneud y gwaith ar y cae. Y Cyng. Evan Jones yn chwilio am ddyfyniadau i wneud y gwaith.

## 10. Gohebiaeth

Cyflwynwyd y canlynol
**10.1** Un llais Cymru. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2023.

**10.2** Costau etholiad. Wedi ei drafod ac am dalu y costau.
**10.3** Un Llais Cymru - Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol. Y Cyng Wyn Bowen Harries am ddarllen.

**11. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

**11.1** Adroddwyd fod Y Cyng Wyn Bowen Harries wedi mynychu cyfarfod Hydro Ogwen
**11.2** Adroddwyd fod Y Cyng Jen Morris wedi mynychu cyfarfod Gwyrddni.

**12. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C20/0504/21/LL**
Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid
Codi tŷ fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd â thanc cynaeafu dŵr
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**NP3/21/LB61D**
Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda
Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr ynghyd a gwaith mewnol mân. Cais Adeilad Rhestredig.
**Penderfyniad:** Ar y gweill
*Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.*

**NP3/21/LB61C**
Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda
Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr.
**Penderfyniad:** Ar y gweill
*Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.*

**NP3/21/46F**
2 Tai'r Cae, Carneddi, Bethesda
Trosi a newid defnydd adeilad allanol gwledig i uned gwyliau hunanarlwyo tymor byr. Gosod offer trin carthion a chreu maes parcio i gerbydau.

**Penderfyniad:** Ar y gweill

**C22/0628/21/LL**
1 Maes y Groes, Talybont, Bangor
Dymchwel sied a modurdy presennol i adeiladu clinig asgwrn cefn deulawr ffrâm bren ar yr ôl troed presennol.
**Penderfyniad:** Caniatawyd

**Ceisiadau Cynllunio**
Dim ceisiadau newydd wedi ei dderbyn

**13. Materion Brys/Eraill**

**13.1** Cais gan Beca Roberts i enwebu Cynghorydd i drafod grantiau. Enwebwyd Y Cyng. Wyn Bowen Harries ac Y Cyng Alun Thomas.

**13.2** Llwybr Sychnant i Danymarian Llanllechid. Y Clerc i gysylltu gyda Llwybrau Arfon.

**13.3** Hoffai'r Cyngor gymeradwyo Y Cynghorydd Geraint Hughes a chwmni Jones o Gymru ar gael ei henwi ar restr fer Gwobr Gorau mewn bwyd a diod.

**14. Adroddiad Llais Ogwan**

Adroddiad i gynnwys fod yr Is – bwyllgor Mynydd wedi cefnogi ymgais record byd Elfed Jackson. Hefyd I Longyfarch Elfed. (Y Cyng Kevin Williams I gysylltu gyda Elfed Jackson am fwy o wybodaeth)

Hefyd, I gynnwys fod datblygiadau Cae Chwarae Talybont yn Parhau.

Hoffai'r Cyngor gymeradwyo Y Cynghorydd Geraint Hughes a chwmni Jones o Gymru ar gael ei henwi ar restr fer Gwobr Gorau mewn bwyd a diod.

Cafwyd diweddariad gan Abbie Edwards oAwdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar brosiectau Cynllun Partneriaeth Tirwedd Y Carneddau.